**EITEM AR YR AGENDA: 7**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2007**

**LLEOLI PEIRIANNAU DEUDDIBEN –**
**Cynllun Gweithredu 3ydd Blwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg 2006/7**

**Adroddiad gan Paul Claydon,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau)**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I roi gwybodaeth pellach i Aelodau mewn perthynas â lleoli peiriannau deuddiben. Roedd sefydlu peiriannau deuddiben yn rhan o Gynllun Gweithredu 3ydd Blwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg 2006/7 o'r enw "Cynnal Momentwm".

### Cyflwyniad

**2.** Fe wnaeth aelodau o'r Panel Gweithredol gwrdd ar 18fed Mai 2006 i adolygu'r 39 ymateb dderbyniwyd i'r Cynllun Drafft 3ydd Blwyddyn yn dilyn cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus ddaeth i ben wedi dyddiad cau estynedig o'r 8fed Mawrth 2006.

**3.** Fe argymhellodd y Panel Gweithredol nifer o ddiwygiadau oedd yn cynnwys yr adran ar Beiriannau Deuddiben. Trafodwyd y diwygiadau yma yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 19eg Mehefin 2006. Diwygiwyd yr adran ar Beiriannau Deuddiben i nodi -

**Cyflwyniad** *(parhad)*

***"Bydd hyn yn gweld cyflwyno chwech o beiriannau deuddiben pwrpasol i'r Gwasanaeth gyda phedwar peiriant arall yn cael eu haddasu yn beiriannau deuddiben. Bydd y peiriannau hyn yn cael eu lleoli'n strategol drwy'r Gogledd i ddarparu safon cyrraedd o 30 munud (Atodiad 1). Hefyd, bydd ymholiadau'n cael eu gwneud i weld a oes adnoddau ariannol ar gael a fyddai, yn y tymor hir, yn fodd i'r Awdurdod, yn seiliedig ar risg, ymestyn y ddarpariaeth o beiriannau deuddiben i orsafoedd eraill drwy'r Gogledd."***

**4.** Gwnaeth yr Awdurdod benderfyniad i dderbyn yr argymhellion.

**Sefyllfa Bresennol**

**5.** Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu 3ydd Blwyddyn, derbyniodd yr Awdurdod lythyr yn mynegi pryder gan Gyngor Tref Abermaw yn Rhagfyr 2006, wyth mis ar ôl y cyfnod ymgynghori estynedig. Darllenwyd y llythyr yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18fed Rhagfyr 2006 ac o ganlyniad, penderfynodd Aelodau y dylid ymgymryd ag ystyriaethau pellach ar leoliad y peiriannau deuddiben.

**6.** Gan aros am yr ystyriaethau hynny, ataliwyd lleoli'r peiriannau deuddiben, er fod diweddaru'r pedwar Pinzgauer presennol i gymhwysedd deuddiben yn parhau gan fod arian wedi cael ei ddyrannu ag angen cwrdd ag anghenion ariannol o fewn y flwyddyn briodol.

**Ystyriaethau**

**7.** Daeth y cynllun gwreiddiol am beiriannau deuddiben o'r adolygiad i beiriannau arbennig a sefydlwyd gan Gynllun Integredig Rheoli Risg cyntaf yr Awdurdod. Roedd yr adolygiad yn ystyried nifer o ffactorau oedd yn cynnwys:-

- Lleoliad daearyddol peiriannau arbennig/eilaidd; nifer, lleoliad a math o ddigwyddiad fynychwyd.
- Pa mor aml oedd pob peiriant yn mynychu digwyddiadau.
- Pa ddefnydd, os yn hysbys, wnaed o bob peiriant yn y digwyddiadau.
- Amser a gymerwyd i ddarparu ail beiriant pan fo'r angen.
- Argaeledd a galw cyffredinol.
- Pa mor aml oedd ail beiriant yn cael ei anfon allan fel peiriant cefnogi, gyda lleoliadau.
- Faint o ddigwyddiadau dŵr oedd yn digwydd a'u lleoliadau.
- Faint o ddigwyddiadau a ddigwyddodd, a'u lleoliadau, lle roedd angen mwy na dwy o bibellau dŵr
- Pa mor aml y defnyddiwyd 4 neu fwy o wisgwyr Offer Anadlu a'u lleoliadau.

**8.** Yn seiliedig ar y wybodaeth uchod, argymhellion y Gwasanaeth o ran mabwysiadu a lleoli peiriannau deuddiben oedd darparu peiriannau mewn safleoedd fyddai'n sicrhau, mor agos â phosib, cyrraedd y digwyddiad o fewn 30 munud ar draws Gogledd Cymru gyfan fel â ddangosir mewn glas yn Atodiad 1.

**9.** Roedd hyn yn seiliedig ar yr angen i amddiffyn bywyd a'r amgylchedd.

**10.** Mae'r wybodaeth ddefnyddiwyd i wneud yr argymhelliad wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru ac nid oes gwybodaeth newydd fyddai'n awgrymu fod angen diwygio'r strategaeth gwreiddiol.

## Goblygiadau

**11.** Mae Cyngor Tref Abermaw yn dadlau y dylai'r peiriant deuddiben aros yn Abermaw ac nid ei adleoli i Ddolgellau. Mae ardal anfon peiriannau allan o fewn 30 munud wedi cael ei ddangos mewn glas yn Atodiad 2, gyda'r bocsys piws yn dynodi'r ardaloedd mae Abermaw yn gallu eu cyrraedd o fewn 30 munud, na allai Dolgellau eu cyrraedd o fewn yr amser hwnnw.

**12.** Mae Atodiad 3, sydd wedi ei farcio gyda bocsys coch, yn dynodi'r ardaloedd y gallai Dolgellau eu cyrraedd mewn 30 munud, na fyddai Abermaw yn gallu cyrraedd. Mantais lleoliad Dolgellau yw'r cynnwys 360°. Mae daearyddiaeth Abermaw yn ei gyfyngu i ddechrau i gyrraedd y Gogledd a'r Dwyrain yn unig, nes cyrraedd Dolgellau.

**13.** Yn y chwe mlynedd diwethaf ers 2000, mae 15 o ddigwyddiadau wedi bod yn Abermaw mewn ardaloedd o fynediad cyfyngedig, mae 6 wedi bod yn alwadau diangen diffuant yn gysylltiedig â llosgi dan reolaeth yn yr awyr agored, 5 wedi bod yn danau eithin neu danau sbwriel bach yn yr awyr agored, 3 o namau i systemau larymau tân oedd wedi achosi larymau diangen mewn un safle a thân mewn adfail oedd wedi ei ddechrau'n fwriadol. Mynychwyd 14 o'r digwyddiadau yma, mynychodd peiriant llinell flaen pob un, gyda pheiriant eilaidd yn mynychu 10, 4 ohonynt gan landrovers Harlech a Dolgellau.

**14.** Felly, mewn chwe mlynedd, mynychodd Pinzgauer Abermaw 6 o ddigwyddiadau mewn ardaloedd o fynediad cyfyngedig – 3 larwm tân awtomatig a 3 oherwydd galwadau diangen diffuant, nid oedd yr un ohonynt yn fygythiad i fywyd, sef mater canolog i'r Cyngor Tref.

**Goblygiadau** *(parhad)*

**15.** Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod cymeriad unigryw tref Abermaw ac o'r herwydd, wedi gwneud swm sylweddol o waith Diogelwch Tân Cymunedol i sicrhau ymweld â'r safleoedd yma gyda mynediad cyfyngedig a bod cyngor priodol wedi cael ei roi gyda larymau mwg yn unai cael eu gosod neu eu gwirio fel bo'r angen. Cydnabuwyd hyn gan y Cyngor Tref yn ystod ymweliad gan Swyddogion i egluro strategaeth y Gwasanaeth.

**16.** Er yn cydnabod cymeriad unigryw Abermaw, nid yw'n unigryw yn cael ardaloedd o fynediad cyfyngedig. Mae gan Caernarfon, Bangor, Llanberis, Wrecsam, Johnstown, Nefyn a'r Waun fwy o eiddo gyda mynediad cyfyngedig o fewn deg munud o'r orsaf dân nag Abermaw. Fodd bynnag, nid yw'r rhesymeg dros leoli peiriannau deuddiben wedi ei seilio ar y nifer o eiddo gyda mynediad cyfyngedig yn unig, ond yn hytrach ar y proffil risg cyfan sy'n rhoi'r gwasanaeth gorau i holl drigolion Gogledd Cymru.

**Opsiynau**

**17.** O ganlyniad i ystyriaethau a'u goblygiadau, mae dau opsiwn i Aelodau.

**18.** Opsiwn 1 fyddai gweithredu'r cynnig gwreiddiol i ddarparu safon mynychu 30 munud ar gyfer lleoli peiriannau deuddiben, fyddai'n gweld y Pinzgauer sydd wedi ei leoli'n Abermaw ar hyn o bryd yn cael ei adleoli i Ddolgellau.

**19.** Opsiwn 2 fyddai i leoli'r peiriant deuddiben yn Abermaw yn hytrach na Dolgellau a fyddai'n cymryd pryderon Cyngor Tref Abermaw i ystyriaeth. Er y dylid ystyried y wybodaeth ym mharagraffau 10 a 12.

## Opsiynau

**20.** Ystyriwyd trydydd opsiwn a fyddai'n lleoli peiriant deuddiben yn Nolgellau ac Abermaw. Byddai peiriant deuddiben ychwanegol yn costio oddeutu £120,000. Nid oes arian wedi ei ddyrannu i'r opsiwn yma ac felly byddai rhaid tynnu prosiectau eraill o'r Rhaglen Gyfalaf er mwyn prynu peiriant ychwanegol. Mae'r opsiwn yma wedi ei ddangos yn Atodiad 4 yn y bocs du sy'n dynodi ennill bychan yn ychwanegol i'r ardal sydd wedi ei gynnwys gan beiriant yn Nolgellau yn unig. Nid yw'r opsiwn yma yn realistig oherwydd yr effaith ariannol ar y rhaglen gyfalaf bresennol sydd wedi ei chymeradwyo eisoes ac yn debygol o achosi gwrthdrawiad gyda dyletswyddau'r Awdurdod o dan ddeddfwriaeth Gwerth Gorau.

## Argymhellion

**21.** Fod aelodau yn ystyried y wybodaeth sydd wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn ac yn dewis eu hopsiwn amgen.